| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Grŵp Ardal Aelodau Rhuthun, a'r Cyng. Brian Jones, Aelod Arweiniol dros Wastraff, Cludiant a'r Amgylchedd: |
| **Dyddiad y cyfarfod** | Dydd Mawrth 25 Awst 2020 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol** | Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad |
| **Awdur yr Adroddiad** | Swyddog Ymgysylltu â'r Cyhoedd, Uwch Beirianydd - Diogelwch ar y Ffyrdd a Chludiant Cynaliadwy |
| **Teitl** | Adroddiad cryno o ymatebion y gymuned, busnes a chynrychiolwyr etholedig i'r *Ymateb Cludiant Cynaliadwy Lleol i Covid-19 – Rhuthun* |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o ymatebion a gafwyd gan y gymuned leol, busnesau lleol a chynrychiolwyr etholedig mewn perthynas ag ymgynghoriadau ar yr *Ymateb Cludiant Cynaliadwy Lleol i Covid-19* ar gyfer tref Rhuthun

## 2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

2.1. Cynorthwyo aelodau o Grŵp Ardal Aelodau Rhuthun a'r Aelod Arweiniol ar gyfer Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd i ddeall cryfder y teimlad o blaid / yn erbyn y cynllun *Ymateb Cludiant Cynaliadwy Lleol i Covid-19* dros dro ymhlith trigolion, busnesau lleol a'u cynrychiolwyr etholedig.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Dylai Grŵp Ardal Aelodau Rhuthun ac Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd yn darllen yr adroddiad ymgysylltu cryno a'r adroddiad data

ymgysylltu manwl, a defnyddio'r ymatebion hyn fel ystyriaeth allweddol yn eu proses benderfynu ynghyd â data arall sydd ar gael (er enghraifft synwyryddion ffordd/ data llif y traffig a nifer yr ymwelwyr) y gellir ei ddefnyddio i hysbysu'r cynllun.

3.2. Dylai Grŵp Ardal Aelodau Rhuthun a'r Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd sicrhau eu bod yn ymwybodol o lefel yr ymgysylltu dilynol sydd ei angen gan y Cyngor i sicrhau fod cymuned Rhuthun yn cael ei briffio ac yn gwybod beth i'w ddisgwyl nesaf.

## 4. Manylion yr Adroddiad

Cafodd yr ymgynghoriad gyda chymuned Rhuthun 601 o ymatebion uniongyrchol. Mae'r Cyngor hefyd yn ymwybodol o fodolaeth (o leiaf) un e-ddeiseb gydag oddeutu 209 o lofnodion yn gwrthwynebu'r cynigion.

Gan gymryd data'r ymatebion ar ei olwg, mae'r Cyngor yn deall fod ymatebwyr **o blaid** y cynllun arfaethedig ar y cyfan gydag oddeutu 81% o'r holl ymatebion yn cael eu gwneud o blaid y cynllun ac oddeutu 19% o'r ymatebion yn cael eu gwneud yn erbyn. Dyma rai o'r prif resymau a roddir gan yr ymatebwyr dros gefnogi'r cynllun:

- Cefnogi mesurau cadw pellter cymdeithasol
- Cefnogi'r syniad o greu 'diwylliant caffi' yn y dref (yn arbennig o amgylch Sgwâr Sant Pedr),
- Cefnogi gwelliannau i lwybrau cerdded / beicio drwy Ruthun
- Yn cefnogi systemau unffordd ar y ffordd i fyny i'r sgwâr ar y cyfan

Dyma rai o'r prif bryderon a godwyd gan ymatebwyr oedd yn erbyn y cynigion:

- Pryderon fod rhaid i gerddwyr a beicwyr rannu gofod
- Pryderon am effaith y system ar fannau parcio ar y stryd, yn arbennig mewn perthynas â phobl anabl / hŷn ar ddefnyddwyr canol y dref sydd fel arall yn ddibynnol ar geir.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Mae'r penderfyniad i ystyried ymatebion o'r gweithgaredd ymgysylltu yn cyfrannu at flaenoriaeth gorfforaethol y Cyngor i gael Cymunedau Cryf, drwy sicrhau fod cymunedau lleol yn cael eu grymuso a bod ganddynt ran ymarferol ym mhroses benderfynu'r Cyngor.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Cytunwyd eisoes mewn egwyddor ar gyllid ar gyfer y cynlluniau eu hunain. Mewn perthynas â gweithgaredd ymgysylltu yn benodol (sef yr hyn mae'r adroddiad hwn yn sôn amdano), mae ymgysylltu dilynol (os cytunir gan Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd)) yn debygol iawn o fod yn fewnol ac i raddau helaeth gyda'r partïon cysylltiedig sydd eisoes wedi ymgysylltu gyda'r Cyngor yn ystod y cyfnod ymgynghori.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Amherthnasol

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Ymgynghorwyd â chymunedau lleol Rhuthun

8.2. Cafwyd 911 o ymatebion gan gynnwys rhai gan:

8.2.1. Cyngor Tref Rhuthun

8.2.2. Cymdeithas Ddinesig Rhuthun a'r Cyffiniau

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Amherthnasol

## 10. Pa risgiau sydd yna ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Mae nifer fawr o bobl wedi ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Mae hyn yn golygu, beth bynnag fydd canlyniad y drafodaeth, y bydd nifer sylweddol o bobl yn

siomedig gydag unrhyw benderfyniad y bydd Grŵp Ardal Aelodau Rhuthun a’r Aelod Arweiniol yn ei wneud ynghylch y cynllun hwn. Bydd angen rhaglen o ymgysylltu dilynol er mwyn asesu effaith unrhyw benderfyniad a gaiff ei wneud, a galluogi ymatebwyr i barhau i gymryd rhan mewn penderfyniadau a wneir a fydd yn effeithio arnynt.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1. Mae Grŵp Ardal Aelodau Rhuthun yn gyfrifol am wneud argymhellion cyffredinol mewn perthynas â chynigion yr *Ymateb Cludiant Cynaliadwy Lleol i Covid-19* ar gyfer Rhuthun, a’r Aelod Arweiniol ar gyfer Gwastraff Cludiant a’r Amgylchedd fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol a bydd disgwyl iddynt ystyried sylwadau'r Grŵp Ardal Aelodau.